

**Cyngor Cymuned Pentir**  
**Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Fedi 2018**  
**yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.**

## Agenda

### Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cyfethol i ward Glasinfryn/Pentir

Cofnodion 12fed o Orffennaf 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

### Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 29ain o Awst

- Adroddiad ariannol
- Ceisiadau Ad 137
  - Marie Currie
  - Llais Ogwan
- Archwilwyr Allannol

Adroddiad Is Bwyllgor Asedau 19-07-18

### Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C18/0705/25/LL Dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad un llawr Tanwylfa Penrhosgarnedd (Cynlluniau bwriedig diwygiedig)
- C18/0767/25/LL Lleoli 40 Uned Llety Gwyliau Coede Y Wqern Ty Gwyn Glasinfryn Bangor LL57 4UR

### Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Biniau Halen
  - Ymgynghoriad Adran Cynllunio – Ffordd Gwynedd
  - Prydles Canolfan Penrhos
  - Datblygiad Ysgol y Faenol
  - Arian Redrow
    - Ffordd Penrhos
    - Oes arian ychwanegol
    - Cae chwarae Ffordd Cynan
  - Gamlins

### Materion y Cynghorwyr

Cyng Menna Baines

Parcio Bro Ogwen

Cyng H Griffiths

Gwreiddia coed ar lon y Wern

# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor Llawn gynhaliwyd Nos Iau 12<sup>fed</sup> o Orffennaf 2018 yn Parc Menai am 7pm**

## **Presennol:**

Y Cyng. - D. W. Jones. - R. Jones. - J. Griffiths, - L. James, - C. E. Hughes, T Anwyl-Williams a M. Baines

E Jones (Clerc )

## **Ymddiheuriadau:**

Y Cyng, J Pierce, - D Jones-Morris. - B Jones a H Griffiths

Cadeirwyd ag offrymwyd gweddi gan y Cyng C E Hughes

## **Cod Ymddygiad**

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen

Gan fod Prydles Canolfan Penrhosgarnedd eto ar yr Agenda, nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd y Ganolfan a fod y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan

## **Cofnodion 26ain o Fehefin 2018**

Cynnigwyd gan Cyng D W Jones eu bod yn gywir ag eilwyd y cynnig gan y Cyng R Jones

Cyfethol i ward Glasinfryn /Pentir.

Nid oedd enw wedi dod ymlaen er i hysbyseb fod wedi ei arddangos yn yr hysbysfyrdau am bron i fis. Cyng M Baines am son wrth unigolyn oedd wedi datgan diddordeb yn y gorffennol

Materion yn codi o'r cofnodion.

## **Is Bwyllgor Asedau**

Cytunwyd cyfarfod Nos Iau 19eg o Orffennaf a peny y dyddiadau eraill y noson honno

Cyfarfod agored drefnwyd gan Owen Davenport i ymgynghori ar fwriad Cwmni adeiladu 40 o gabannau gwyliau yn Coed y Wern Glasinfryn wedi bod 4ydd o Orffennaf.

Tra'i fod tu allan i ardal Pentir mi fyddai yn dylanwadu yn bendant ar drigolion Bro Infryn.

Amheuan mawr ynglyn a'r fenter a fawr dim o fateision lleol tae'r cais yn llwyddianus.

Cyswllt Gogledd Cymru – cyswllt fwy ar gyfer rhai y byddai y cynllun yn dylanwadu/effeithio arnynt oedd hwn, a dim eiddo gan y Cyngor fyddai'n cael effaith arno.

Nodwyd na fyddai cyfarfod yn ystod Awst ond cytunwyd i gyfarfod i gerdded rhai o'n llwybrau cyhoeddus yn ardal Pentir 23ain o Awst am 6.00 y.h

## **Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 26ain o Fehefin Cyn y Cyfarfod Llawn**

Adroddwyd o ddau Is Bwyllgor Cyllid sef 30ain o Fai ag un oedd wedi ei symud ymlaen o Nos Iau 27ain i gyfarfod cyn y Cyngor Llawn heno.

Dosbarthwyd gofnodion 30-05-18 oedd wedi eu derbyn yn gofnodion cywir ag adroddwyd ar lafar am gyfarfod heno

- Adroddiad ariannol Dosbarthwyd mantolen ariannol oedd wedi ei ddarpau ar gyfer y ddau Is-Bwyllgor oedd yn dangos Incwm a gwariant dros gyfnod Mai a Mehefin
- Ceisiadau Ad 137 daeth un cais gan Bobath i Gyfarfod IBC Mai ac argymhellwyd peidio cyfarnu eleni gan nad oedd tystiolaeth o gefnogaeth yn lleol.  
Nid oedd Cais am nawdd yn IBC mis Gorffennaf Telerau'r Clerc
- Adroddwyd fod aelodau o'r Is-bwyllgor Cyllid wedi trafod telerau'r Clerc ac yn argymhell
  - a) symud ei raddfa cyflog o Pwynt 21 i Pwynt 27.
  - b) Ei ol dalu yn ol i 1af o Ebrill 2018
  - c) Cadw'r oriau fel ag y maent ond gan eu bod yn ymwybodol y bydd gryn dipyn o alw arno yn sgil prydlesau Canolfan Penrhos, Y Swyddfa a trafodaethau Canolfan Penrhos/Ysgol Y Faenol o'n blaenau i'r Clerc fonitro ei oriau dros y misoedd nesaf

- Adroddiad Archwilwyr Mewnol

Rhanwyd gynnwys adroddiad yr Archwilwyr Mewnol sef Adran archwilio Cyngor Gwynedd eleni.

Derbynwyd yr Adroddiad gan gymeradwyo fod y Cyngor Llawn yn ei derbyn a'i anfon ymlaen i'r Archwilwyr Allanol y BDO unwaith byddai y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei arwyddo.

#### Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- Cais am ddiwygiad ansylweddol i ganiatad rhif C18/0312/25/LL ar gyfer ail leoli'r anecs 1 medr yn agosach i dy'r ymgeisydd 2, MAES MAWR, PENRHOSGARNEDD, GWYNEDD, LL572LR

**Cytunwyd eto i wrthwynebu y Cais yma ag ychwanegwyd fod rhai trigolion lleol bellach wedi datgan eu anfonlonrwydd ynglyn a'r datblygiad.**

#### Materion y Clerc

- Gohebiaethau

**Parthed Llwybr yr Arfordir** E-Bost wedi ei dderbyn oddiwrth Shon Williams yn honni yn groes i ddatganiad Cyngor Gwynedd nad oedd y llwybr yn addas ar gyfer unigolion anabl yn enwedig y bont oedd wedi ei gosod ble 'roedd yn amlwg o'r lluniau eu bod ar adegau o dan ddwr Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Cyngor Gwynedd i ddatgan ein siomedigaeth am ansawdd gwaith ar y bont ag i holi am statws y llwybr yma ag os ydynt yn ei gymeradwyo ar gyfer yr anabl

#### **Archwiliad Cae Chwarae Caerhun**

Rospa wedi archwilio y safle ag adrodd yn ol. Ambell risg isel wedi ei amlygu fel notch yng nghadwynni y swing a gap rhwng y teils ar y llawr. **Cadeirydd am ymweld Cytunwyd hefyd talu eu costau £66.50 + TAW £79.80**

**Prydles Canolfan Penrhos** Dim datblygiad pellach ond y Clerc wedi trafod dros y ffon gyda'r Adran Eiddo ag iddynt fynegu pryder mae amod un ochr oedd yr hawl ar ol blwyddyn i derfynnu'r brydles **Cytunwyd gwahodd D. Gibbard i'n cyfarfod i drafod ymhellach Nos Fawrth 17 o Orffennaf**

- Adroddiadau
  - Cau achosion coed fynwent yr eglwys - Popeth bellach wedi ei dalu a'r achos wedi ei gau
  - Mater yr Hysbysfwrdd ger Ysbyty Gwynedd D.E Williams i gysylltu a Valerie Harries i drefnu gosod yr Hysbysfwrdd ar yr ochr chwith i'r fynedfa
  - Arwyddion Llwybrau cyhoeddus Cadarnhad fod rhain bellach wedi eu ail-osod yn Ty'n Ffridd ond angen sicrhau fod rhai yn Pencefn a Tyddyn Heilyn
  - Dyddiad Is Bwyllgor Asedau 19-10-18

#### Materion y Cynghorwyr

Cyng Lowri A James Parcio bler yn ardal Glasinfryn

Adroddwyd fod y cyn Gyng Catrin E Williams wedi cwyno ynglyn a pharcio bler yn ardal Glasinfryn oedd yn beryg o achosi damweiniau.

Ychwanegwyd at hyn fod Cyng B Jones wedi cysylltu a'r Clerc i adrodd fod hefyd drafferthion parcio parhaol ar y Stad bach tu ol i Bro Ogwen a bod rhai o'r trigolion wedi eu rhybuddio rhag rhoi nodiadau ar ffenestri ceir sydd wedi parcio yno. Credir fod rhai o staff yr ysbyty yn parcio yno Clerc i gysylltu a Ysbyty Gwynedd a CCG

Cyng James Griffiths Ty'n Ffridd

Credir yn lleol fod datblygiadau yn mynd ymlaen yn Ty'n Ffridd heb ganiatad cynllunio ag oherwydd hynny fod llawer iawn mwy o geir yn mynd a dod gydol yr amser ar hyd y ffordd gul sy'n arwain at y lleoliad Clerc i gysylltu hefo Adran Cynllunio/gorfodaeth

Cyng T A Williams Oes posib cael arwydd i Treborth Clerc i holi Cyngor Gwynedd

Cyng C E Hughes Adroddodd tra bod y fynwent ei hun yn daclus mae llawer iawn o flodau plastic o gwmpas yn ei hagrau o ganlyniad i wyntoedd sy'n eu chwythu oddiar feddi. Y Clerc eisoes wedi casgu llawer ohonynt ag yn anffodus ei binio oherwydd na ellir adnabod o lle meant wedi dod

Daeth y cyfarfod i ben 9.40